Cofnodion y cyfarfod ar 19fed o Dachwedd 2025

Yn bresennol oedd Arwyn Ellis, Medwyn Roberts, Llyr Jones, Helen Jones (caderiydd) a Cyngh Gwennol Ellis.
Ymddiheuriadau gan Generys Roberts, Eryl Evans a Gethin Jones.
Croesawyd Glyn Roberts aelod annibynnol o Bwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy i arsylwi y cyfarfod, lle bydd yn adrodd yn ol ir Cyngor.
Cofnodion blaenorol – cafwyd yn gywir.
Datgan diddordeb ir AGENDA - neb
Gohebiaeth
**Urdd Gobaith Cymru – Eisteddfod Ynys Mon 2026** – gofyn am gyfraniad – pasiwyd iw adael.
**Urdd Gobaith Cymru Rhanbarth Conwy** – gofyn am gyfraniad - pasiwyd i roi £50.00.
**Ambiwlans Awyr Cymru** – gofyn am gyfraniad – pasiwyd ei adael.
**Gethin Morris Swyddog Afonydd LIFEDee** – llythyr yn nodi bod y gwaith yn yr afon wedi ei gwbwlhau ac bydd Cregin Gleision Dwr Croyw yn cael ei cyflwyno ir afon, nodwyd bod 2 fwrdd picnic wedi ei gosod ac bod hysbysfwrdd 'text board' ar ei ffordd.
**Cyngor Sir Conwy** – Cafwyd llythyr yn nodi y taliadau a fydd angen ei hystyried pan yn gosod y precept nesaf, nodwyd y Cae Chwarae bod cais am arian wedi wedi ei gyflwyn ac os na fydd yn llwyddaiannus ni fydd dim refeniw ar gael i gynnal a chadw y cae chwarae. Ac os bydd offer diffygion yn y parc mi fydd yn cael ei ynysu rhag ei ddefnyddion. Nodwyd hefyd inni ystyried costau rhedeg y sesiynau chwaraeon, (nid yw hwn yn berthnasol i Lanfihangel gan nad oes sessiynnau yn cael ei cynnal yma). Llyfrgelloedd Cymunedol – nodwyd bod cynnydd sylweddol wedi bod oherwydd cynnydd yn y costau staffio ac cyfraniadau Yswiriant Gwladol disgwilir ir Cyngor Bro cyfrannu £692.00 nid yw'r cynghorwyr yn hapus i dalu y swm felly bydd Cyngh Gwennol Ellis yn ymchwilio ymhellach i fewn i hyn gan obeith y cawn ymateb cyn yr dyddiad cau i ymateb ir sir ar yr 19 Rhagfyr.
**Un llais Cymru** - cynnigion am hyfforddiant am ddim i gynghorwyr – clerc i yrru manylion ymlaen pan fydd dyddiadau ar gael.
**Cyngor BC Conwy** – Cafwyd addewid bod cais grant wedi bod yn llwyddiannus gan y Sir a bod yr adnodd chwarae pren yn mynd iw gael ei newid am un newydd cyn ddiwedd Ionawr 26.
**Tan Gwyllt** – cafwyd noson lwyddiannus iawn eto eleni a bod £130.00 wedi ei gasglu i ganolfan Maggies yn Ysbyty Glan Clwyd.Cafwyd anfoneb gan Gethin am y Tan Gwyllt £324.00. Mae'r clerc wedi derbyn arian am y tan Gwyllt o gronfa Elusen Uwchaled.
**Archwilio Cymru** - Adroddiad yn penodi bod y gwaith archwilio wedi ei orffen a bydd copi or adroddiad ar wefan y Cyngor.
**Adroddiad Cyngh Gwennol Ellis – Bont y Crown** cafwyd e bost gan y Sir yn nodi bydd y tendr yn mynd allan y fuan am wneud y gwaith ac yn aros am ateb gan NRW gyda dyddiadau.
**Swper Dolig** - bydd y swper eleni yn y Giler ar 27 o Dachwedd am 7.00. elw y raffl i Canolfan Maggies.
**Capel Maes yr Odyn -** anfoneb am heirio y festri i gyfarfodydd - 6 x £15.00 = £90.00 pasiwyd iw dalu.
**Glyn Davies** – anfoneb am dori gwair yn y ddwy fynwent £1,700.00 pasiwyd iw dalu.
**Coeden Nadolig** - pasiwyd i gael coeden eto eleni ir pentref a gofyn i Dewi am ganiatad i cael ei gosod yn yr un lle. Hefyd cafwyd crybwyll i blannu coeden dolig parhaol yn yr Eglwys iw plannu mewn pot wrth ddrws yr eglwys – y clerc i wneud cais i elusen Llanfihangel i brynnu coeden parhaol.

**Llinella Melyn -** mae'r cyngh Gwennol Ellis am edrych i mewn i osod llinellau melyn tu allan i funglo 14 Bro Alwen, gan bod y car dal yn parcio ar y ffordd ac yn beryg i drafnidiaeth ar dywydd gwael,

**Cyngor Sir Ddinbych** - cafwyd cwyn am gyflwr y ffordd ar yr eira – nodwyd bod yr gritar ar arad eira wedi troi nol wrth Foel Fawr ac nid wedi cario mlaen i Bod Petreual ac felly roedd y ffordd yn beryglus iawn i drafeilio.

Dyddiad y cyfarfod nesaf Nos Fawrth 13 o Ionawr 2026